# MARWNAD

I'R

## Parchedig LEWIS REES,

Yr hwn a fu dros hir Flynyddau yn Weinido
Eglwys CRIST ymhlith yr YMN
PROTESTANAIDD, (parai a elwir
INDEPENDIAID) arferol o ymgyn
*Mynydd-bach*, *Scetty* a *Threforris*, ge
*Abertawe*, yn Swydd *Forganwg*;

Yr hwn a ymadawodd â'r Byd hwn *Mawrth* 21, 1800.

---

" Efe a fu farw mewn oedran teg, yn gyflawn o ddyddiau."
1 Cro. xxix. 28.

" Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig; ond enw y
" drygionus a bydra." Diar. x. 7.

---

ABERTAWE:

ARGRAPHWYD GAN VOSS A MORRIS, YN
HEOL-Y-CASTELL.

1800.

# MARWNAD, &c.

*Ar y Dôn a elwir Guinea Win*

I.

CLYWCH ddoniol swyn ddynion trwy hyfrydlawn,
Chwi'n awchus 'chwenycho rwydd gofio rai cyfia
Cewch gynnyg ar ganiad o lwyraidd alarnad,
Yn ddifri' o ddwyfron hiraethlon helaethiad;
Bu brenin braw gerllaw yn llyn,
Yn symmud fry i Sion fryn,
Bereryn o'r pereiddia, byth ymaith o'r byd yma,
I hafaidd wlad Jehofa, at wledd yr hoffaidd Alpha,
Mae gyd â'r llonna' yn y llys,
Dyna 'nghrêd gariadus am *Lewis Rees*;
Och alar brô ei alw i bridd!
Wr siriol ddawn fel seren ddydd,
Fu beunydd yn ymboeni, gan gymmell gwlad y Cymry,
At foreu edifaru, bygythion fu'n bregethu,
Heb dwyll, gan bery gwella'r bai,
A d'od at 'Difedd nefoedd yn lluoedd i'n gwellau.

2.

Fe rhanodd o'r henddyn ſu yn Eden yn hedyn,
A thyna'r berthynas a gafas ei goſyn,
Pan wariodd ei oriau, iaith ing fe ddaeth angau,
Rh'odd doriad rwydd dirion i'w dynon gadwynau;
Wrth *Mynydd-bach* mae'i gorph mewn bedd,
Nes codo 'mhell yn well ei wedd,
'Nol cael ei beraidd buro, tra ſo mewn tir yn tario,
Angylion fydd yn gwilio gan ofal Duw am dano,
...ddihuno yn ddihaint,
...wo'r Barnwr, gael ſwccwr gyd â'r ſaint;
...i hoff gyfeillach hardd,
...daurydd dw'r a dardd,
...o gerddi i gwrddyd, a hollol allu'r holl ſyd,
...n i ddweud ei wynſyd, trwy'r unol ſywiol
...nbydd ſy'n ei yſbryd ef, [ſywyd,
...ſt bwrw Criſt o'i bwer cyn collir niſer nef.

3.

Dyn medrus da 'i ymadrodd pen cadarn pan cododd,
Tra eglur y llwyddai trwy Arglwydd y lluo'dd,
Y graſol wr iſel ar arch y Goruchel,
Bregethai'r efengyl mor ddoethed ac angel;
Derbyniodd ddwys arbennig ddawn,
I alw ar Ion am olau iawn, [hyfrydwch,
Mewn geiriau'n llawn hawddgarwch, i'w frodyr oedd
Yn galw ar bawb, Dychwelwch, ffowch allan o dy-
Derbyniwch heddwch diwahan, [wyllwch,
Yn ddiwad fe fu ddiwyd was glew yr Yſbryd Glan;

Fe

Fe aeth trwy râd effeithiol ras,
O'r cyſtudd mawr a'i rwyſtrau ma's,
I'r addas deyrnas dirion brô dêg y prynedigion,
Sy'n cyrraedd auraidd goron a'i gwiſg fel eira Salmon,
Yn happus union gwmp'ni'r Oen,
Lle atto ni ddaw adfyd, ond bywyd pur heb boen.

4.

Go dawel gadawai ei neſa' berth'naſau,
Mae rhai'n yn dwyn galar am dad o ben golau,
Cyſſurwch, ca's anedd o radol anrhydedd
Yng wlad yr addewid yr hon ſy' ddiddiwedd;
I'r cyfiawn mae Duw'n coffo mil
O'u heppil hwy a'u happus hil,
Medd gwerſi'r Bibl graſol, mae'n abl helpi'i bobol,
O drugareddau'n raddol, mae'n Ior yn fod anfeidrol,
Anghyfnewidiol yn ei air,
Y rhoddion fo'n ei addo yn gywir ganddo cair;
'Nol ſyrthiad dyn goſodws Duw
Y dda'r yn rhan i ddynolryw,
Trwy rym y cyfryw gyfraith ddiammod aeth e' ymaith,
I barthau'r bywyd perffaith, a ffydd achubol obaith,
A'i cariai heb drafferth i'r byd draw,
Hoff ydyw, mae'n 'ffeiriedyn a brenin heb dim braw.

5.

'R awr honno pan hunodd ei was a ollyngodd
I fyn'd mewn tangnefedd i fynu i'r nefo'dd,
'Nol gair ei ragoriaeth i fuddiol 'difeddiaeth,
Ei lygaid yn dirion ga's gwel'd iechydwriaeth;

Rhag

Rhag ſinco wrth ffoi mae ſicrwydd ffydd,
Fel olew da neu oleu dydd, [fagal,
Mewn cynnydd mae fe'n cynnal, rhyw fagad rhag y
Dan afael Duw a'i ofal, dd'od atto yn ddiattal,
Mewn anian ddyfal union ddwys,
Gwir felus yw'r gorfoledd hir beraidd ar ei bwys,
Dros Griſt y gwr ga'i doſta gûr,
Fe lwyddai'n ſiwr mewn llawer ſir,
Pur eglur o'u peryglon heb dwyll goleuai'r deillion,
Trwy ffynniant at y ffynnon ſy'n gwella clwyfau'r
Byddariaid, mudion, yr un modd, [cleiſion,
A neſyd at yr Ieſu ſy'n rhannu hyn o rodd.

6.

'R un Duw a ro'ws doniau i fynu danſonai,
Yn ganwyll i Gymru oedd geimion eu camrau,
I'r North yn wr nerthol a'i neeges fynegol,
Agorid trugaredd am gariad trag'wyddol;
Fe fu fynu yn ſir *Fôn*,
Yn dweud am rinwedd Gwaed yr O'n,
I *Gaernarſon* hefyd ca'i anfon at rai ynfyd, [erlid,
Gan gythraul oedd mewn caethfyd fel Herod yn ei
Chwant dwyn ei fywyd waith ei fod
I'r Ieſu'n un o'r tlyſau a nhwyntau nid o'i nôd;
Er iddo brofi goddau briw,
Ymlaen âi'n ddewr ymhlaid ei Dduw,
Er ffyrnig ryw uffernol, ei waith a fu effeithiol,
Yn difa hawl y diafol, trwy groes y Meichiau graſol,
Un ragorol yn y gair,
Y cynta' oſodwys adail i gappel *Llanbrynmair*.

7. Rhy

7.

Rhy anodd yw enwi 'r lluosog eglwysi,
A blannodd yng Wynedd tra bu yno'n gweini,
Dan fendith Duw'n ymdaith ar alwad pur eilweith
Fe ddaith i Ddeheubarth gan draethu da obaith;
Cyhoeddai i Gymru trwyddi draw,
Y cadarn Dduw, a'r farn a ddaw, [llwyrach,
Gwna'i ddifraw fod yn ddofach, a'r llerw fyn'd yn
Dros Grist ' fu dyst onestach, gwyr barthau *Llange-*
Ga'i golled o'i gyfeillach faith, [*felach*,
Pob aelod fyddo'n hwylus i'w dywys ar ei daith;
Duw lwyddo *Dasies* hŷd ei oes,
Am ffrwythau gras a gwyrthiau'r groes,
Tro'n aros, rho iddo eiriau, gwyr efangylwr golau,
I siwr gysuro'r seintiau, rho'i etto arg'oeddiadau,
Aeddfeda yntau cyn y wŷs,
Ca' 'nol ei bêr sancteiddio lwyr roesaw at *Lewis Rees*.

8.

Os 'dwyf i'n distewi, nid eisiau 'gwyllysu,
Ar ddoniau ymadrodd da union 'dwy'n medru,
Gwych oed ein Iachawdwr pan hunodd yr hên-wr,
Oedd deunaw o gantau medd dynion i'r cantwr,
Aeth yntau i'w daith mewn oedran têg,
Yn bedwar ugain mlwydd a deg; [feddyg,
Rho'wch osdeg bawb yn ysdig, a'r Arglwydd fyddo'n
Gwir lesiol i'r eglwysig, 'dyw'r enaid ddim yn unig,
Mae 'mhlith yr etholedig lu,
O cofia ninnau'n gyfan o'th freiniol drigfan fru,

Gwna

June the 2d — 1822



Gwna ni o'th blanniad 'nawr yn blant,
Cyn b'o ni'n myn'd o'r byd i bant,
Trwy ffyniant yr un ffunud, i'r duwiol mae'r addewid,
Sy'n elwa pethau ail-fyd, bywha ni trwy dy ysbryd,
Cyn b'o'n bywyd byr i ben,
'N iachusol rho rasusau, a maddeu i minnau, *Amen.*

AD 1822
1756
0066

W. DAFYDD.

Dinmore

Diamiter 37
Semi — 50

VOSS a MORRIS, Argraphwyr, yn Heol-y-Castell,
yn ABERTAWE.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES